


Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd - PREIFAT

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

 12:05 – 13:15

 14/02/23

 Galwad Teams

Cadeirydd	Marian Wyn Jones
-----------	------------------

Yn bresennol		Teitl	Sefydliad
Marian Jones	MJ	Aelod Annibynnol, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Ruth Glazzard	RG	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Marilyn Bryan Jones	MBJ	Aelod Annibynnol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Alistair Neill	AN	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Yn bresennol			
Julie Ash	JA	Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Stephen Chaney	StC	Pennaeth Archwilio Mewnol Dros Dro	Archwilio Mewnol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Nathan Couch	NC	Arweinydd Archwilio Perfformiad (Iechyd)	Archwilio Cymru
Ian Cox	IC	Pennaeth Gwasanaethau Cleientiaid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru



Mark Cox	MC	Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Chris Darling	CD	Ysgrifennydd y Bwrdd	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Paul Evans	PE	Pennaeth Ansawdd a Rheoleiddio Dros Dro	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Gareth Lavington	GL	Pennaeth Atal Twyll	Caerdydd a'r Fro
Martyn Lewis	ML	Rheolwr Archwilio TG	Archwilio Cymru
Sam Lloyd	SL	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Carwyn Lloyd Jones	CLJ	Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Claire Osmundsen-Little	COL	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Julie Robinson	JR	Ysgrifenyddiaeth y Cyfarfod	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Michelle Sell	MS	Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Phrif Swyddog Masnachol	Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Andrew Strong	AS	Archwilio Cymru	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		Teitl	Sefydliad

Acronymau			
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	NWIS	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
SHA	Awdurdod Iechyd Arbennig	DPIF	Cyllid Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithred u
---------------	-------	-----------	-----------------



1	MATERION RHAGARWEINIOL		
1.1	Croeso a chyflwyniadau Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod preifat y Pwyllgor.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.2	Ymddiheuriadau absenoldeb Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	Datganiadau o Fuddiannau Ni chafwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2	BUSNES Y CYFARFOD		
2.1	Cofnodion y cyfarfod preifat a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2022 Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
3	ARCHWILIO, ATAL TWYLL A RISGIAU		
3.1	Cofrestr Risg Breifat Cadarnhaodd Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (CD) statws y ddwy risg breifat ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a neilltuwyd i'r Pwyllgor. Bu'r Pwyllgor yn trafod y risgiau seiber yn helaeth a nododd fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatrys unrhyw broblemau posibl, gan weithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr y Grŵp Cyfoedion Digidol a'r Byrddau Iechyd drwy'r fforymau Rhwydwaith Digidol Aelodau Annibynnol ac Is-gadeiryddion. Yn ychwanegol, roedd trafodaethau wedi cychwyn gyda Phrif Swyddog Digidol newydd Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu'r sefyllfa ledled y GIG yng Nghymru. Penderfynodd y Pwyllgor: NODI y Gofrestr Risg Breifat ar gyfer SICRWYDD.	Sicrwydd	Dim i'w nodi
3.2	Cynnydd yr Adolygiad Stoc TG ar Argymhellion Archwilio Mewnol Ymunodd Ian Cox, Pennaeth Gwasanaethau Cleientiaid â Mark Cox, Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar Argymhellion Archwilio Mewnol yr Adolygiad Stoc TG. <ul style="list-style-type: none">• Roedd yr holl gamau gweithredu sy'n ymwneud â chyllid bellach wedi'u cwblhau. Roedd un eitem yn weddill.• Rhoddodd Ian Cox, Pennaeth Gwasanaethau Cleientiaid y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed o	Sicrwydd	Dim i'w nodi

	<p>safbwynt y Gwasanaethau Cleientiaid, gan gadarnhau bod y digwyddiad wedi'i drin fel prosiect gwella.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI Cynnydd yr Adolygiad Stoc TG ar Argymhellion Archwilio Mewnol</p>		
3.3	<p>Diweddariad Atal Twyll</p> <p>Darparodd Gareth Lavington, Pennaeth Atal Twyll (GL) ddiweddariad ar y gofrestr Risg Atal Twyll, ynghyd â diweddariad ar yr achos Atal Twyll a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf.</p> <p>Cadarnhaodd GL nad oedd llawer i'w ychwanegu at yr achos Atal Twyll ond roedd wedi cynnwys atodiad o risgiau Atal Twyll.</p> <p>CAM GWEITHREDU 20230214-A01 Atal Twyll i gysylltu â Chris Darling i fynegi risgiau Atal Twyll yn gliriach.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>NODI y diweddariad ar yr Achos Atal Twyll a'r Gofrestr Risg Atal Twyll.</p>	Nodwyd.	Cam Gweithred u: Atal Twyll i gysylltu â Chris Darling i fynegi risgiau Atal Twyll yn gliriach.
3.4	<p>Adroddiad ar Adolygiad Archwilio Mewnol: Cadernid Technegol</p> <p>Ymunodd Martyn Lewis, Swyddog Archwilio Mewnol (ML) â'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad ar Gadernid Technegol.</p> <p>Amlinellodd ML ddiben yr adolygiad a chrynhodd y gwaith a wnaed a hysbysodd y Pwyllgor o'r canfyddiadau</p> <p>Cadarnhaodd Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithrediadau (SL) ei fod wedi cael sicrwydd meddwl drwy ymuno ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru.</p> <p>Cadarnhaodd CLJ fod Tîm Cadernid yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth TGCh a bod yr argymhellion wedi'u disgwyl.</p> <p>Canmolodd y Pwyllgor y tîm am y cynnydd a wnaed yn y maes hwn.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>DERBYN Adolygiad yr Archwiliad o Gadernid Technegol ar gyfer SICRWYDD.</p>		
3.5	<p>Seibergadernid yn y Sector Cyhoeddus</p> <p>Cyflwynodd Nathan Couch, Archwilio Cymru, yr adroddiad ar Seibergadernid yn y Sector Cyhoeddus a rhoddodd rai uchafbwyntiau allweddol o'r adroddiad:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd seiber-ymosodiadau bob amser yn aros ar yr agenda diogelwch ar draws y sector cyhoeddus at ddibenion sicrwydd; • Roedd Arddangosyn 1 yn crynhoi'r gwersi o waith a 	Ar gyfer Sicrwydd	Cam Gweithred u: Yr adroddiad i'w rannu gyda'r Pwyllgor DG&S i'w



	<p>ddarparwyd ar gyfer uwch arweinwyr a'r rhai a fu'n craffu arnynt;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd Atodiad 2 yn darparu astudiaethau achos o'r rhai a oedd wedi profi ymosodiadau; • Roedd Atodiad 3 yn darparu ffynonellau wedi'u diweddarau o arfer da a chymorth i sefydliadau sydd am gryfhau eu seibergadernid; a • Cyfeiriwyd yr adroddiad cyntaf a ddaeth i law'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol i'w ystyried yn fanylach ac awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd fod am ddilyn proses debyg ar gyfer yr adroddiad hwn. <p>CAM GWEITHREDU 20230214-A02 Yr adroddiad i'w rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol i'w ystyried yn eu sesiwn Breifat.</p> <p>CAM GWEITHREDU 20230214-A03 Yr adroddiad i'w rannu gyda'r Byrddau Iechyd drwy'r fforymau a'r rhwydweithiau y mae'r Aelodau Annibynnol yn eu mynychu.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>DERBYN yr Adroddiad ar Seibergadernid yn y Sector Cyhoeddus ar gyfer SICRWYDD.</p>		<p>ystyried yn ei sesiwn breifat.</p> <p>Cam Gweithred u:</p> <p>Yr adroddiad i'w rannu gyda'r Byrddau Iechyd drwy'r fforymau a'r rhwydweithiau y mae'r Aelodau Annibynnol yn eu mynychu.</p>
3.6	<p>Adroddiad Systemau TG sydd wedi'u Cynnal yn Genedlaethol</p> <p>Roedd Andrew Strong o Archwilio Cymru (AS) yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad ar y Systemau TG a Gynhelir yn Genedlaethol a rhoddodd grynodedb byr o'r gwaith a wnaed.</p> <p>Cadarnhaodd CLJ fod darn arwyddocaol o waith yn mynd rhagddo a oedd wedi'i gynnwys yn yr IMTP a'r Cynllun Blwyddyn ac y byddai diweddariadau diogelwch yn cael eu hategu.</p> <p>Penderfynodd y Pwyllgor:</p> <p>DERBYN Adroddiad Systemau TG a Gynhelir yn Genedlaethol ar gyfer SICRWYDD.</p>		
4	<p>ADRODDIADAU LLYWODRAETHU</p>		
4.1	<p>Diweddariad Rhaglen Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC) – Diweddariad Ilafar</p> <p>Rhoddodd Michelle Sell, Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Phrif Swyddog Masnachol, ddiweddariad byr ar lafar ar Raglen LINC.</p> <p>Byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill.</p>		

	Penderfynodd y Pwyllgor: NODWYD y diweddariad llafar ar Raglen LINC		
4	Materion i Gloi		
4.1	Eitemau ar gyfer Adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd Nodi'r eitemau a ddaeth i law yn y sesiwn breifat i'w cynnwys yn yr adroddiad i'r Bwrdd. <ul style="list-style-type: none"> • Y drafodaeth a'r gwaith parhaus ochr yn ochr â'r Byrddau Iechyd mewn perthynas â'r risgiau preifat ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. 	Trafodwyd	Dim i'w nodi
4.2	Unrhyw Faterion Brys Eraill	Nodwyd	Dim i'w nodi
4.3	Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf: 18 Ebrill 2023 Daeth y cyfarfod i ben am 13:10.	Nodwyd	Dim i'w nodi